**Migldi magldi**

Ffeind a difyr ydyw gweled,
Migldi magldi, hei, now, now.
Drws yr efail yn agored,
Migldi magldi, hei, now, now.
Ar go' bach a'i wyneb purddu,
Migldi magldi, hei, now, now.
Yn yr efail yn prysur chwythu,
Migldi magldi, hei, now, now.

Ffeind a difyr hirnos gaea'
Migldi magldi, hei, now, now.
Mynd i'r efail am y cynta';
Migldi magldi, hei, now, now.
Pan fo rhew ac eira allan,
Migldi magldi, hei, now, now.
Gorau pwynt fydd wrth y pentan.
Migldi magldi, hei, now, now.

Ffeind a difyr gwylio'r gwreichion,
Migldi magldi, hei, now, now.
Oddi ar riniog gwr du'r einion;,
Migldi magldi, hei, now, now.
Ac yn dawnsio dan ei forthwyl,
Migldi magldi, hei, now, now.
Pan mor fedrus y gwnel ei orchwyl.
Migldi magldi, hei, now, now.

Ffeind yw tinc y dûr forthwylion,
Migldi magldi, hei, now, now.
Dwbwl ergyd ar yr einion,
Migldi magldi, hei, now, now.
Tinc, tinc, tinc ar hyd yr oriau,
Migldi magldi, hei, now, now.
Un, dau, tri, pedwar, pump o nodau.
Migldi magldi, hei, now, now.

Ffeind a braf yw swn y fegin,
Migldi magldi, hei, now, now.
Gwrando chwedl, cân ac englyn.
Migldi magldi, hei, now, now.
Pan fo'r cwmni yn ei afiaith,
Migldi magldi, hei, now, now.
Ceir hanesion lawer noswaith.
Migldi magldi, hei, now, now.